



**Cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru  
ddydd Sadwrn 27 Mehefin 2020  
Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom**

**Cofnod 2020.13 Addoli agoriadol**

Yn ystod ein haddoli agoriadol darllenwyd rhif 27 *Cynghorion ac Ymholiadau* yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rydym yn croesawu 73 o Gyfeillion yma heddiw.

Cynrychiolwyr y Cyfarfodydd Ardal heddiw yw:

- CA De Cymru: Julia Lym
- CA Gororau'r De: John York Skinner
- CA Canolbarth Cymru: Alun Clark
- CA Gogledd Cymru: Catherine James, Gerald Hewitson, Helen Still, Judith Hedges, Frances Voelcker

Ein henaduriaid heddiw yw Gerry Craddock (CA Gogledd Cymru) a Jess Morgan (CA De Cymru).  
Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan Wiliam.

**Cofnod 2020.14 *Calon a The Friend***

Bydd Catherine James yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i *Calon* a Peter Hussey yn ysgrifennu i *The Friend*.

**Cofnod 2020.15 Mae Bywydau Duon o Bwys**

Yn dilyn marwolaeth drallodus George Floyd ym Minneapolis, mae Clercod CCNg wedi anfon neges o undod gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru at Gyfarfodydd Blynyddol yn yr Unol Daleithiau gan fynegi ein galar a'n hundod. Er yn llawenhau mewn agweddau ar ein hanes a diwylliant ein hunain sydd wedi coleddu amrywiaeth gan ymestyn croeso i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, rydym yn cydnabod ein natur doredig ein hunain a bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb. Safwn gyda holl bobloedd America yn y Goleuni gan gydnabod hawl pob un ohonom ym mhobman i fyw mewn cydraddoldeb ac i rannu cyfleoedd.

Atodir testun cyfan y llythyr i'r cofnodion hyn, ynghyd ag unrhyw ymatebion rydym wedi'u derbyn.

### **Cofnod 2020.16 Gwirionedd ac Uniondeb mewn Bywyd Cyhoeddus**

Rydym yn cydnabod yr ohebiaeth sy'n digwydd rhwng staff yn *Friends House* a Chyfarfod Ardal Gororau'r De ynghylch Gwirionedd ac Uniondeb mewn Bywyd Cyhoeddus. Edrychwn ymlaen at glywed diweddariadau pellach am hyn yng nghyfarfodydd CCNg yn y dyfodol.

Rydym yn ymwybodol o ymchwydd o aflonyddwch ymhlith Cyfeillion, gan gynnwys ymhlith Cyfeillion yng Nghymru, ynghylch colli gwirionedd ac uniondeb mewn bywyd cyhoeddus. Cydnabyddwn yr ohebiaeth sy'n digwydd rhwng staff yn *Friends House* a Chyfarfod Ardal Gororau'r De ynglŷn â'r mater hwn ac yn ymwybodol bod mater rheoli a thrin gwybodaeth yn ystod argyfwng COVID-19 hefyd wedi bod yn her i Gyfeillion yn ne Cymru.

Cydnabyddwn fod cyfyng gyngor i Gyfeillion wrth ystyried beth gallwn ni ei wneud o fudd yn unigol ac yn gorfforaethol i sefyll dros ein Tystiolaeth i'r Gwirionedd ym myd bywyd cyhoeddus. Byddwn yn dychwelyd at y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cynhwysir y mater yma yn ein grwpiau trafod heddiw ac yn ein cyflwyniad i Lywodraeth Cymru.

### **Cofnod 2020.17 Enwebiadau**

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n dwyn gerbron yr enwau canlynol:

- Carolyn Sansom (CADC a Chwrdd Lleol Caerdydd) i wasanaethu fel Cyd-glerc CCNg hyd at fis Rhagfyr 2023.
- Catherine James (CAGC a Chwrdd Lleol Porthmadog) i ymestyn ei gwasanaeth ar Bwyllgor Enwebiadau CCNg hyd at fis Rhagfyr 2022
- Ruth Moore Williams i barhau fel cyd-glerc cynorthwyol CCNg hyd at fis Rhagfyr 2021.

Gan fod y Cyfeillion hyn yn fodlon, fe'u penodir fel sy'n briodol.

### **Enwebiadau a geisir:**

Gofynnwn i'r Pwyllgor Enwebiadau chwilio am:

- Enw aelod i'r Grŵp Ffocws cyn gynted ag y bo modd
- Enw trysorydd cynorthwyol cyn gynted ag y bo modd
- Enw ymddiriedolwr o CACC
- Enw cynrychiolydd o CCNg ar Gyngor Cynrychioladol Quaker Life (o fis Ionawr 2021)
- Enw i'r Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd
- Enw cynrychiolydd o CCNg ar gyfer y Cyfarfod Dioddefiadau
- Enw ymddiriedolwr o CCNg i wasanaethu gyda Cytûn ar ran Cyfarfod Blynyddol Prydain

### **Cofnod 2020.18 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolwyr**

Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ymddiriedolwyr CCNg ar gyfer 2019 wedi'u cylchredeg drwy e-bost cyn y cyfarfod hwn ynghyd â chrynodeb byr sy'n amlygu datblygiadau yn ystod 2020 yn ogystal â gweithgareddau CCNg yn ystod 2019.

Rôl yr ymddiriedolwyr yw sicrhau bod y fframwaith sylfaenol ar gyfer gwaith CCNg a'i gefnogaeth o ran cyllid a gweinyddiaeth yn eu lle yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Deborah Rowlands, clerc i'r ymddiriedolwyr, wedi sôn am yr adroddiad a chyllid ac wedi bod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a sylwadau heddiw.

Rydym hefyd wedi clywed am gynlluniau'r ymddiriedolwyr i'r dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar am wasanaeth pawb sy'n ymwneud â'r gwaith ac â bod yn ymddiriedolwr.

Rydym yn derbyn yr adroddiad yma ac yn ei anfon ymlaen at y Comisiwn Elusennau a chyrrff eraill yn ôl y gofyn.

### **Cofnod: 2020.19 Datblygu Lleol**

Yn sgil cyflwyno datganiad o ddiddordeb gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i gynnal mwy o weithwyr datblygu lleol a / neu Hyb yng Nghymru, rydym wedi derbyn llythyr gan Rachel Matthews, Pennaeth Datblygu Lleol Cyfarfod Blynyddol Prydain, yn rhoi gwybod i ni nad oedd ein cais yn llwyddiannus y tro yma.

Mae Rachel wedi dweud wrthon ni mai cyfanswm o 6 datganiad o ddiddordeb a dderbyniwyd gan gyrrdau lleol a chyfarfodydd ardal yng Nghymru a Gororau'r De. Er nad oedd yr un o'r rhain yn llwyddiannus, deilliodd sawl syniad ohonynt y teimlai Rachel y byddai'n fuddiol eu trafod er mwyn diwallu anghenion Cyfeillion yng Nghymru. Mae Clercod CCNg wedi cynnig hwyluso trafodaeth rhwng pob un o'r 6 chyfarfod ac ar ran Rachel yn trefnu cyfarfod ar-lein ym mis Awst i'r Cyfeillion sydd ynghlwm â'r chwe chais.

### **Cofnod 2020.20 Adroddiadau**

Rydym wedi derbyn adroddiadau ysgrifenedig gan y Grŵp Ffocws, Cyngor Cynrychioladol Quaker Life, y Grŵp Symud Ymlaen a Phwyllgor Preswyladau CCNg.

Rydym hefyd wedi derbyn adroddiadau llafar gan Catherine James am waith Grŵp Adolygu'r Llyfr Disgyblaeth, Lesley Richards o'r Grŵp Symud Ymlaen, Huw Meredith Owen am waith Grŵp y Wefan a Mike Clark am y datblygiadau gyda Chyfeillion Ifainc yng Nghymru o'r enw 'Crynwyr Ifainc yn Cysylltu'.

Rydym yn diolch i bob un o'r Cyfeillion yma am eu hadroddiadau.

### **Cofnod 2020.21 Y Gymru a Garem**

Mae ein Cyfaill Peter Hussey (CA Gororau'r De) wedi rhannu gyda ni ei bryder cynyddol am yr angen am newid mewn cymdeithas yng Nghymru a thu hwnt a'r angen i lais y Crynwyr gael ei glywed wrth symud tuag at ddyfodol sy'n cyd-fynd yn fwy â'n Tystiolaethau.

Ym mis Chwefror bu Peter yn rhannu gyda ni mai testun gresyn iddo yw bod Cymru'n aml yn anweladwy mewn trafodaeth gyhoeddus yn y DU, er bod y Senedd wedi bod yn gyfrifol am ddeddfwriaeth flaenllaw ac arloesol, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Crynwyr hefyd yn anweladwy ar y cyfan mewn trafodaethau cyhoeddus.

Newidiwyd hyn oll gan COVID-19. Erbyn hyn, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol bod rhaid i bethau newid yn dilyn y pandemig, gyda syniadau fel y Fargen Werdd Newydd ac Ailgodi'n Gryfach yn cael gafael. Mae angen brys i ailadeiladu'r economi, ond hefyd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb a rhagfarn yn ein cymdeithas fel a fynegir drwy ymgyrchoedd sy'n cynnwys Mae Bywydau Duon o Bwys.

Mae Crynwyr mewn sefyllfa dda i alw am fudiad er newid a bod yn weithgar ynddo. Rydym yn rhannu hanes a diwylliant o ran gweithio i sicrhau cyfiawnder, heddwch, gwirionedd a thegwch

wedi'u seilio ar ein cred ysbrydol bod rhan o Dduw ym mhob un ohonom. Fodd bynnag, mae angen i ni adnabod a mynegi'n glir beth rydym am ei weld.

Yn ein heiliadau tywyllaf, mae gweledigaeth o fyd wedi'i seilio ar Dystiolaethau'r Crynwyr yn gallu ymddangos yn iwtopaidd - ymarfer ysbrydol nad oes modd ei wireddu ym myd gwleidyddiaeth go iawn, yn wastraff amser. Fodd bynnag, rydym wedi cael ein calonogi gan gais i gynnig ein barn i ymgynghoriad Cymru gyfan 'Cymru Ein Dyfodol' erbyn diwedd mis Gorffennaf. Rydym yn argyhoeddiedig mai dyma'r amser i godi ein lleisiau a bod yn radicalaidd, gan nodi set glir o flaenoriaethau a chynigion ar gyfer y ffordd ymlaen.

Ymrannon ni i ystafelloedd ymneilltuo i drafod y testunau canlynol:

- Gwirionedd ac Uniondeb mewn Bywyd Cyhoeddus
- Tŷ'r Cyffredin
- Ymchwil a Datblygu
- Yr Amgylchedd
- Amodau Byw
- Trafnidiaeth
- Mae Bywydau Duon o Bwys
- Heddwch

Mae Cyfeillion wedi rhannu eu meddyliau a'u dyheadau ynglŷn â'r testunau uchod. Rydym yn cytuno mai dyma ddechrau'r sgwrs yma yn unig ac y bydd grwpiau Zoom yn dwyn y trafodaethau hyn yn eu blaenau er mwyn cyhoeddi papur gan Grynwyr Cymru i'w gyflwyno i'r Senedd erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020. Fel rhan o'r broses hon byddwn yn cysylltu ag Ailgodi'n Gryfach ac yn cynnwys Grace Da Costa, y Swyddog Cyswllt Seneddol yn Friends House a Gethin Rhys yn Cytûn.

Dylai Cyfeillion sydd am fod yn rhan o grŵp Zoom ar destun neu destunau penodol gysylltu â Peter Hussey ar [tyolaf@gmail.com](mailto:tyolaf@gmail.com).

Ein bwriad yn yr hirdymor yw i'r Crynwyr yng Nghymru a thu hwnt gael eu hadnabod fel grŵp i fynd atynt i gael mewnbwn i'r agenda ar gyfer gwell byd sy'n foesebol ac wedi'i seilio ar y credoau ysbrydol a ymgorfforir yn ein tystiolaethau.

### **Cofnod 2020: 22 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyfarfod Blynyddol Prydain a CCNg**

Mae adborth cychwynnol ar y ddogfen wedi'i geisio a'i gynnwys. Bydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth bellach yn cael ei derfynu gan Glercod CCNg a'r Ymddiriedolwyr.

### **Cofnod 2020.23 Cyfarfod Addoli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru**

Cytunwyd y cynhelir cyfarfod addoli ar-lein i Gyfeillion ledled Cymru ddwywaith y flwyddyn ar fore dydd Sadwrn. Bydd tîm clericio CCNg yn cytuno ar y dyddiadau ar gyfer y ddau gyfarfod addoli cyntaf gan hysbysu Cyfeillion drwy'r postio misol arferol a'r postio i Gyfarfodydd Ardal a Chyrddau Lleol.

*Llofnodwyd: Y cleriod ar gyfer y cyfarfod yma, Tricia Bridgewater, Jane Harries a Ruth Moore Williams.*